

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

| | |
|--|---|
| Eich enw: | Lowri Wynne Williams |
| Sefydliad (os yw'n berthnasol): | Comisiynydd y Gymraeg |
| Cyfeiriad E-bost: | post@cyg-wlc.cymru ; lowri.williams@cyg-wlc.cymru |
| Eich cyfeiriad: | |
| Cwestiwn 1: Sut mae Covid-19 wedi effeithio ar eich bywyd chi fel gofalwr, neu fel sefydliad sy'n cefnogi gofalwyr? | |
| Sylwadau: Dim sylw | |

| | |
|--|--|
| Cwestiwn 2: Beth ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru ei flaenoriaethu i roi gwell cefnogaeth i ofalwyr di-dâl sy'n cael eu heffeithio gan Covid-19, nawr ac os bydd tonnau eraill o'r haint? | |
| Sylwadau: Dim sylw | |

| | |
|---|--|
| Cwestiwn 3: Beth yw'r prif anghydraddoldebau y mae gofalwyr â nodweddion gwarchoddedig yn eu hwynebu y dylai'r Cynllun Cenedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr fynd i'r afael â nhw? | |
| Sylwadau: Dim sylw | |

| | |
|---|--|
| Cwestiwn 4: Beth yw'r heriau allweddol rydych chi'n eu hwynebu fel gofalwr ifanc/gofalwr sy'n oedolyn ifanc neu fel sefydliad sy'n cefnogi gofalwyr ifanc? | |
| Sylwadau: Dim sylw | |

| | |
|--|--|
| Cwestiwn 5: Pa gymorth ychwanegol fyddai'n helpu? (I ofalwyr ifanc/gofalwyr sy'n oedolion ifanc). | |
| Sylwadau: Dim sylw | |

| | |
|--|--|
| Cwestiwn 6: Sut mae Covid-19 wedi effeithio ar eich bywyd bob dydd? | |
| Sylwadau: Dim sylw | |

Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu sy'n cael eu hawgrymu uchod?

Sylwadau:

Dim sylw

Cwestiwn 8: A oes unrhyw beth mwy y dylai cyrff cyhoeddus a'u partneriaid ei wneud i nodi a chydabod gofalwyr?

Sylwadau:

Nodir yn y ddogfen ymgynghori eich bod yn 'bwriadu defnyddio'r data a gasglwn a'n gwaith diweddar gyda Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr i ddatblygu ystod o atebion sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddarparu asesiadau statudol amserol ac effeithiol sy'n ymatebol i'r cymorth sydd ei angen ar ofalwyr.' Rydym yn nodi yn ein hateb i gwestiwn 30 isod ein bod yn bryderus nad yw'r asesiadau statudol o'r boblogaeth a wnaed hyd yma yn unol â Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar y cyfan yn rhoi sylw digonol i'r Gymraeg ac yn benodol i anghenion ieithyddol gofalwyr. Gofynnwn ichi felly gynnwys rhagor o arweiniad i gyrff cyhoeddus a'u partneriaid ar sut i fynd ati i asesu anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg a diwallu'r gofynion hynny. Dylid addasu blaenoriaeth un felly i adlewyrchu'r angen i gefnogi siaradwyr Cymraeg sy'n ofalwyr ac i sicrhau bod yr atebion y cyfeiriwch atynt uchod ar gyfer awdurdodau lleol yn cefnogi darparu cymorth yn y Gymraeg.

Cwestiwn 9: A ddylid newid geiriad presennol Blaenoriaeth Un? Os felly, sut?

Sylwadau:

Gweler uchod ein hymateb i gwestiwn 8.

Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno â'r awgrymiadau uchod?

Sylwadau:

Dim sylw

Cwestiwn 11: A oes unrhyw beth arall y dylem ei wneud i helpu pobl i fyw yn ogystal â gofalu?

Dim sylw

Sylwadau:

Dim sylw

Cwestiwn 12: Sut y gallwn ni wella'r cymorth seicolegol sy'n cael ei darparu i ofalwyr?

Sylwadau:

Fel Comisiynydd y Gymraeg rydym wedi derbyn adroddiadau o ddiffyg cymorth seicolegol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pobl sy'n profi straen neu brofedigaeth, er nad yw hynny yn benodol mewn perthynas â'r gefnogaeth i ofalwyr. Credwn y byddai'n fuddiol rhoi rhagor o ystyriaeth i'r angen i ddarparu cymorth seicolegol i ofalwyr trwy gyfrwng y Gymraeg gan wneud hynny yn y lle cyntaf drwy asesiadau o'r boblogaeth er enghraifft ond hefyd fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer gweithredu'r cynllun hwn. Mae angen gwell gwybodaeth am sgiliau ieithyddol seicolegwyr sy'n gweithio yng Nghymru a'r bylchau yn yr angen am siaradwyr Cymraeg er mwyn bwydo i mewn i weithrediad Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal er enghraifft ynghyd â blaenoriaethau mwy lleol. Ddiwedd 2020 gofynnodd y Llys Gwarchod i bob bwrdd iechyd ac awdurdod lleol gyhoeddi faint o ymarferwyr oedd ganddynt oedd yn gallu cynnal asesiadau galluedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn oherwydd ei fod

o'r farn bod angen eu cynnal yn y Gymraeg er mwyn rhoi asesiad cywir o anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg. Buasem yn dadlau bod angen hefyd darparu cefnogaeth seicolegol yn y Gymraeg i ofalwyr ac eraill sydd angen cefnogaeth seicolegol ac mae fframwaith *Mwy na geiriau* Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi bod darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn elfen sylfaenol o wasanaethau o ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl¹.

Cwestiwn 13: Pa fathau o ofal seibiant ydych chi'n eu defnyddio neu'n eu darparu fel arfer? Sut mae Covid-19 wedi effeithio ar eich gwasanaethau seibiant?

Sylwadau:
Dim sylw

Cwestiwn 14: A ddylid newid geiriad presennol Blaenoriaeth Dau? Os felly, sut?

Sylwadau:
Dim sylw.

Cwestiwn 15: Ydych chi'n cytuno â'r awgrymiadau uchod?

Sylwadau:
Dim sylw

Cwestiwn 16: A oes unrhyw beth arall y dylem ei wneud i wella gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yng Nghymru?

Sylwadau:
Nododd adroddiad Archwilio Cymru *Y drws blaen i ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru*² bod 'darpariaeth yr wybodaeth sydd ar gael yn Gymraeg, ieithoedd eraill ac mewn fformatau hawdd eu defnyddio megis Braille yn parhau i amrywio yn fawr.' Mae'r cynllun gweithredu hwn hefyd yn nodi 'er mwyn osgoi amrywiadau daearyddol yn y gwasanaethau sydd ar gael ledled Cymru ('loteri cod post'), mae'n hanfodol bod yr holl wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yng Nghymru o ansawdd uchel ac yn hygyrch i bawb'. Er bod niferoedd uwch o siaradwyr Cymraeg mewn rhai rhannau o Gymru, rhaid pwysleisio ei bod yn ddyletswydd ar bob awdurdod lleol a byrddau iechyd yn unol â safonau'r Gymraeg i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.³ Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt ddarparu deunyddiau ysgrifenedig megis gohebiaeth, cyhoeddusrwydd a hysbysebu, ffurflenni, arwyddion, hysbysiadau swyddogol yn y Gymraeg a'r

¹ [Y Gymraeg mewn gofal iechyd \(Mwy na geiriau\): cynllun gweithredu 2019 i 2020 | LLYW.CYMRU](#)

² [Y drws blaen i ofal cymdeithasol i oedolion \(audit.wales\)](#)

³ <https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh>

Saesneg.⁴⁵ Yn ogystal, wrth iddynt ohebu ag unigolion rhaid iddynt ofyn i unigolion a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg gan gadw cofnod o hynny a gohebu â hwy yn Gymraeg ac anfon ffurflenni atynt yn y ymraeg o hynny ymlaen.⁶ Mae gofynion penodol ar awdurdodau lleol hefyd sy'n golygu bod angen iddynt ganfod a yw unigolion yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd sy'n ymwneud â'u llesiant gan ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gynnal y cyfarfodydd yn Gymraeg⁷ yn ddibynnol ar y safonau a osodwyd arnynt yn eu hysbysiadau cydymffurfio. Rhaid pwysleisio bod gofyn statudol ar i awdurdodau lleol a byrddau iechyd weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg ac mae rheidrwydd ar i Gomisiynydd y Gymraeg ymchwilio i fethiant â chydymffurfio â'r safonau hyn.

Mae'r Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion)⁸ a gyhoeddwyd yn unol â Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd yn tanlinellu'r angen i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hygyrch yn y Gymraeg gan nodi 'Mae hyn yn golygu y dylai'r awdurdod lleol fod yn rhagweithiol yn ei dull ac y dylid gofyn i'r unigolyn pa iaith yr hoffai ei defnyddio ar ddechrau'r broses. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn gallu derbyn gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain gydol y broses o nodi a diwallu anghenion gofal a chymorth'. Mae Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)⁹ sy'n deillio o'r Ddeddf hefyd yn cadarnhau 'Rwy'n cael gofal a chymorth trwy'r Gymraeg os bydda i eu hangen' fel un o'r datganiadau canlyniadau llesiant cenedlaethol ac yn cynnwys cyfarwyddyd ar ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

Ar sail hyn credwn y dylai'r cynllun gweithredu gynnwys y canlynol:

- Eglurhad o'r gofynion sydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau mewn perthynas â safonau'r Gymraeg a Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2014.
- Ymrwymiad i gynnal adolygiad o'r graddau y mae gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ar gael yn Gymraeg fel sail ar gyfer gwella'r sefyllfa hon.
- ar sail yr adolygiad mae angen darparu arweiniad a chefnogaeth i awdurdodau lleol a darparwyr eraill er mwyn gweithredu'r blaenoriaethau yn llawn o safbwynt gwasanaethau Cymraeg

Cwestiwn 17: Beth rydyn ni wedi'i ddysgu gan Covid-19 a'r angen i gael gwybodaeth hygyrch i ofalwyr mewn cyfnod byr o amser?

Sylwadau:

Dim sylw

Cwestiwn 18: A oes gennych enghreifftiau o arfer da yn ystod y pandemig y gallid eu hefelychu neu a allai lywio datblygiad gwasanaethau?

Sylwadau:

⁴ Gweler Atodlen 1 y rheoliadau safonau cyflenwi gwasanaethau ar gyfer awdurdodau lleol <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/schedule/1/made/welsh>

⁵ Gweler Atodlen 1 y rheoliadau safonau cyflenwi gwasanaethau ar gyfer cyrff iechyd <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/contents/made/welsh>

⁶ Gweler safon 2 <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/schedule/1/made/welsh> a <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/contents/made/welsh>

⁷ Gweler safonau 24-26. <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/schedule/1/made/welsh>

⁸ [cod-ymarfer-rhan-4-diwallu-anghenion.pdf \(llyw.cymru\)](#)

⁹ [cod-ymarfer-rhan-2-swyddogaethau-cyffredinol.pdf \(llyw.cymru\)](#)

Dim sylw

Cwestiwn 19: A ddylid newid geiriad presennol blaenoriaeth tri? Os felly, sut?

Sylwadau:

Gweler ein hymateb i gwestiwn 16. Dylai geiriad blaenoriaeth tri danlinellu'r gofyniad statudol i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a gofynion Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cwestiwn 20: Ydych chi'n cytuno â'r awgrymiadau uchod?

Sylwadau:

Dim sylw

Cwestiwn 21: A oes unrhyw beth arall y dylem ni ac eraill ei wneud i gefnogi gofalwyr o bob oed mewn addysg a chyflogaeth? A oes gennych enghreifftiau o arfer da?

Sylwadau:

Rhaid tanlinellu yn y fan hon unwaith eto yr angen i gefnogaeth fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i ofalwyr mewn addysg a chyflogaeth. Er enghraifft, mae nifer o bobl ifanc yn derbyn addysg Gymraeg ac mae'n rhesymol disgwyl felly y byddai'r gefnogaeth a'r adnoddau ar gael iddynt trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal waeth lle y bônt yn byw. Yn yr un modd fel y nodwyd eisoes mae codau ymarfer Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi arweiniad ar yr angen i ystyried y Gymraeg wrth wneud darpariaethau sy'n cydfynd â gofynion gweithredu'r Ddeddf. Credwn y dylid adolygu ymrwymadau'r cynllun gweithredu hwn i sicrhau bod modd eu gweithredu yn llawn un unol â'r gofyn i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn unol â'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cwestiwn 22: Sut allwn ni roi gwell cymorth i ofalwyr sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol?

Sylwadau:

Dim sylw

Cwestiwn 23: Ydych chi'n cytuno ag ychwanegu'r bedwaredd flaenoriaeth genedlaethol i ofalwyr yn seiliedig ar addysg a chyflogaeth?

Sylwadau:

Nid oes gennym sylw penodol ar addasrwydd cynnwys y flaenoriaeth newydd hon i gefnogi gofalwyr mewn addysg. Fodd bynnag, o gynnwys y flaenoriaeth rhaid sicrhau bod ei gweithredu yn golygu y bydd cefnogaeth ar gael yn y Gymraeg i bobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd a bod gwneud hynny yn rhan ganolog o gynllunio'r gwasanaethau cefnogi yn lleol ac yn genedlaethol.

Cwestiwn 24: Ydych chi'n credu bod angen diwygio'r rhestr o flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr, a'r bedwaredd flaenoriaeth arfaethedig, ymhellach? Os felly, sut? Disgrifiwch.

Sylwadau:

Nid oes gennym sylwadau penodol am addasrwydd y blaenoriaethau eu hunain. Fodd bynnag credwn bod angen:

- adolygu'r graddau y byddai modd cyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol arfaethedig o safbwynt darparu gwasanaethau a chefnogaeth i siaradwyr Cymraeg

- ar sail yr adolygiad ddarparu arweiniad a chefnogaeth i awdurdodau lleol a darparwyr eraill er mwyn gweithredu'r blaenoriaethau yn llawn o safbwynt gwasanaethau Cymraeg
- ystyried beth all Llywodraeth Cymru a'i bartneriaid ei wneud ymhellach i gefnogi darparu gwasanaethau Cymraeg ar gyfer gofalwyr, e.e. drwy ddarparu gwybodaeth am fylchau mewn sgiliau ieithyddol ymarferwyr er mwyn cyfrannu at weithrediad Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal o Safbwynt y Gymraeg
- cynnwys cyfarwyddyd penodol yn y cynllun gweithredu a fesul blaenoriaeth ynghylch y disgwyliadau sydd ar ddarparwyr i gyflawni'r blaenoriaethau yn unol â safonau'r Gymraeg a gofynion Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cwestiwn 25: Ydych chi'n cytuno â'n bwriad i ddatblygu a chyhoeddi Siarter i Ofalwyr?

Sylwadau:

Mae'n ymddangos yn rhesymol y dylai gofalwyr gael gwybod beth yw lefel y gwasanaethau y dylent ei ddisgwyl ac y byddai hynny yn ei dro yn gallu gweithredu fel canllaw arfer gorau a fydd yn diffinio'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, sefydliadau'r trydydd sector a gofalwyr.

Cwestiwn 26: A ddylai'r Siarter ddisgrifio disgwyliadau cenedlaethol sefydliadau sy'n cefnogi gofalwyr?

Sylwadau:

Dylai. Gweler ein hymateb i gwestiwn 28.

Cwestiwn 27: Ydych chi'n meddwl y byddai Siarter yn helpu i wella'r gwasanaethau rydych chi'n eu darparu neu'n eu defnyddio?

Sylwadau:

Gweler ein hymateb i gwestiwn 28.

Cwestiwn 28: Ydych chi'n cytuno y gallai Siarter helpu i leihau amrywiad daearyddol ymddangosiadol mewn gwasanaethau i ofalwyr?

Sylwadau:

Mae'n ofynnol i holl awdurdodau lleol a byrddau iechyd Cymru yn ogystal â Llywodraeth Cymru gydymffurfio â safonau'r Gymraeg fel y nodwyd eisoes yn ein hateb i gwestiwn 16. Un o brif fwriadau'r safonau yw sicrhau cysondeb i'r cyhoedd o safbwynt y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn lle bynnag y bônt yn byw yng Nghymru. Credwn felly y byddai'n rhesymol petai'r Siarter yn nodi'r gwasanaethau y dylai gofalwyr eu derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â safonau'r Gymraeg a Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Byddai hynny yn ei dro, fel y noda'r ddogfen ymgynghori, yn diffinio'n gliriach y disgwyliadau sydd ar ddarparwyr o bob sector. Ein gobaith wedyn yw y buasai hynny'n un ffordd o sicrhau bod darparwyr yn wir yn darparu'r gwasanaethau sy'n ddisgwyliedig ohonynt trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cwestiwn 29: Sut arall y gallwn ni weithio gyda phartneriaid i fesur llwyddiant y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofalwyr?

Sylwadau:

Nodwn bod y *Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol*¹⁰ yn cynnwys metrigau ynghylch tystiolaeth fod y cynnig rhagweithiol wedi'i gynnig wrth gynnal asesiadau a'i fod wedi ei dderbyn. Fodd bynnag dylid nodi mai dim ond os yw'r darparwr yn medru siarad Cymraeg yn y lle cyntaf y mae'n gallu darparu'r cynnig rhagweithiol. Gan fod cyn lleied o ystyriaeth yn cael ei roi i'r Gymraeg yn nifer o'r asesiadau o'r boblogaeth y cyfeiriwn atynt uchod mae'n anodd gwybod sut y gall awdurdodau lleol fod â gwaelodlin o wybodaeth am yr angen i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn y lle cyntaf. Nid oes llawer o bwmpas felly mewn mesur y cynnig rhagweithiol heb wybod faint o bobl sydd angen ei dderbyn yn y Gymraeg yn y lle cyntaf. Mae'n hynod bosibl felly mewn mannau lle nad oes staff Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaethau y bydd yr enghreifftiau o ddarparu'r cynnig rhagweithiol yn hynod isel ac felly bydd yr enghreifftiau o dderbyn y cynnig hefyd yn isel. Fel y nodwn yn ein hateb i gwestiwn 16 mae rheidrwydd ar awdurdodau lleol yn sgil safonau'r Gymraeg a Chod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion)¹¹ Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i wybod beth yw dewis iaith unigolyn o'r dechrau, fel y nota'r cod ymarfer 'Mae hyn yn golygu y dylai'r awdurdod lleol fod yn rhagweithiol yn ei ddull ac y dylid gofyn i'r unigolyn pa iaith yr hoffai ei defnyddio ar ddechrau'r broses. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn gallu derbyn gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain gydol y broses o nodi a diwallu anghenion gofal a chymorth'. Dylai'r fframwaith perfformiad a gwella felly gynnwys metrigau mwy soffistigedig ynghylch y graddau y mae gwasanaethau ar gael unwaith y bo dewis iaith unigolion wedi'i adnabod ar ddechrau'r broses. Unwaith yn unig y dylai unigolyn fynegi ei ddewis iaith ac yna dylai'r holl wasanaethau y mae arno eu hangen fod ar gael yn Gymraeg wedi hynny er mwyn bodloni gofynion y datganiad canlyniadau llesiant cenedlaethol 'Rwy'n cael gofal a chymorth trwy'r Gymraeg os bydda i eu hangen'. Nodir yn y ddogfen ymgynghori 'bod swyddogion wrthi'n trafod pryd y bydd y gwaith o goladu data gofal cymdeithasol arferol yn aildechrau, ond mae dulliau bellach ar waith i ganiatáu i ddata mwy manwl gael eu casglu gan awdurdodau lleol pan ystyrir bod yr amser yn briodol i wneud hynny. Bydd hyn yn cynnwys data mwy cadarn ar ofalwyr a'r gofal a'r cymorth a gânt.' Dylai'r data mwy manwl hwn gynnwys data am y graddau y mae anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'u diwallu drwy gydol eu hymwneud â gofal cymdeithasol.

Edrychwn ymlaen at weld yr adroddiad interim ar y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gyhoeddir ym mis Chwefror 2021 gan y bydd yn cynnwys asesiad o sut mae Deddf 2014 wedi cael ei rhoi ar waith ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Yn benodol wrth gwrs gan fod y Ddeddf yn gwneud gofynion o safbwynt darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg rwy'n edrych ymlaen at weld asesiad cyflawn o sut y bydd hynny wedi ei gyflawni hyd yma.

Cwestiwn 30: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Cynllun Cenedlaethol i Ofalwyr yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

¹⁰ [mesur-gweithgarwch-a-pherfformiad-canllawiau-2020-21.pdf \(llyw.cymru\)](#)

¹¹ [cod-ymarfer-rhan-4-diwallu-anghenion.pdf \(llyw.cymru\)](#)

Sylwadau:

Yn ei thystiolaeth i'r *Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* mewn perthynas â gofalwyr nododd y Comisiynydd Pobl Hŷn: "... when you're in a caring situation, and it can be really difficult and you might be at a point of crisis, it's so important, then, that you're able to access services in the Welsh language if that's what you want to do."¹²

Wrth ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad hwn rydym wedi tynnu sylw at sawl ffordd o gryfhau'r Cynllun Cenedlaethol i Ofalwyr er mwyn sicrhau y bydd ei weithredu yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn cefnogi'r angen hwn a amlygywyd gan y Comisiynydd. Mae hyn yn cynnwys:

- adolygu'r graddau y byddai modd cyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol arfaethedig o safbwynt darparu gwasanaethau a chefnogaeth i siaradwyr Cymraeg yn unol â disgwyliadau safonau'r Gymraeg a Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- ar sail yr adolygiad ddarparu arweiniad a chefnogaeth i awdurdodau lleol a darparwyr eraill er mwyn gweithredu'r blaenoriaethau yn llawn o safbwynt gwasanaethau Cymraeg
- ystyried beth all Llywodraeth Cymru a'i bartneriaid ei wneud ymhellach i gefnogi darparu gwasanaethau Cymraeg ar gyfer gofalwyr, e.e. drwy ddarparu gwybodaeth am fylchau mewn sgiliau ieithyddol ymarferwyd er mwyn cyfrannu at weithrediad Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal o Safbwynt y Gymraeg
- cynnwys cyfarwyddyd penodol yn y cynllun gweithredu a fesul blaenoriaeth ynghylch y disgwyliadau sydd ar ddarparwyr i gyflawni'r blaenoriaethau yn unol â safonau'r Gymraeg a gofynion Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Un o ofynion canolog Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2014 yw'r angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnal asesiadau o'r boblogaeth yn unol â Chod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)¹³ er mwyn asesu ar y cyd ystod a lefel y gwasanaethau y mae eu hangen i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn ardal yr awdurdod lleol. Rhan o hynny yw asesu ar y cyd y camau y mae angen eu cymryd i ddarparu'r ystod a'r lefel o wasanaethau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid i'r asesiadau dalu sylw i themau craidd, ac un o'r rhai hynny yw 'gofalwyr sydd angen cymorth'. O edrych ar yr asesiadau o'r boblogaeth gwelir mai ystyriaeth anghyson iawn a roddwyd i anghenion siaradwyr Cymraeg gyda'r ymdriniaeth a roddir i'r Gymraeg gan nifer o bartneriaethau yn brin iawn. Prinnach fyth yw'r ymdriniaeth a roddir i ofalwyr Cymraeg eu hiaith wrth ymdrin â'r thema hwnnw o fewn yr asesiadau ac nid yw anghenion gofalwyr Cymraeg eu hiaith yn cael eu hystyried o gwbl yn y rhan fwyaf o asesiadau. Nid yw'n syndod felly fod Archwilio Cymru wedi canfod yn *Y drws blaen i ofal cymdeithasol* bod 'darpariaeth yr wybodaeth sydd ar gael yn Gymraeg yn parhau i amrywio yn fawr'.¹⁴ Mae hynny fodd bynnag yn siom o ystyried gofynion y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant ers 2014 a safonau'r Gymraeg ers

¹² [Gofalu am ein dyfodol: Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 mewn perthynas â gofalwyr \(senedd.wales\)](#)

¹³ [cod-ymarfer-rhan-2-swyddogaethau-cyffredinol.pdf \(llyw.cymru\)](#)

¹⁴ [Y drws blaen i ofal cymdeithasol i oedolion \(audit.wales\)](#)

2016 (yn achos awdurdodau lleol yn unig; mae gofyn i fyrddau iechyd gydymffurfio ers 2019). Cyn bwrw ati o ddifrif felly i weithredu'r Cynllun Gweithredu hwn rhaid i Lywodraeth Cymru ar y cyd ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd a darparwyr eraill gynnal gwir asesiad o anghenion siaradwyr Cymraeg a bwrw ati i fapio sut y byddant yn mynd ati i ddiwallu anghenion gofal a chymorth gofalwyr sy'n siarad Cymraeg. Dylwn bwysleisio yn hyn o beth na ddylid gwahaniaethu wrth wneud hynny rhwng gofalwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwahanol o Gymru gan mai'r un yw'r gofyn i ddarparu gwasanaethau ac i'w cefnogi lle bynnag y bônt.

Cwestiwn 31: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn: cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau:

Gweler ein hateb i gwestiwn 30.

Cwestiwn 32: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.

Sylwadau:

Gellir cyhoeddi ymatebion i ymgynghoriadau ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch yma os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddiennw:

